## ATODIAD 2c - BIDIAU CYFALAF

### BIDIAU CYFALAF 2022/23 - I'W ARIANNU O'R GYLLIDEB O FEWN Y CYNLLUN RHEOLI ASEDAU

| | Teitl y Bid | Manylion y Bid | Swm a Argymhellir (£) |
|---|---|---|---|
| **ADDYSG** | | | |
| Cyf 1 | Cae Cymunedol Caernarfon ar safle Ysgol Syr Hugh Owen. | Nod y prosiect yw adeiladu cau synthetig 3G maint llawn yng Nghaernarfon. Bydd y cae oddeutu 100m x 64m gydag wyneb 3G synthetig modern, caiff ei amgylchynu gyda ffens a bydd llifoleuadau ynghyd a darpariaeth acoustig a thurlunio. Cae ar gyfer pêl-droed a hoci yn bennaf er bydd yn bosib cynnal ymarferion rygbi a chwaraeon eraill fel athletau arno.<br><br>Byw'n Iach fydd yn rheoli'r cae, gydag ysgolion y dalgylch yn ei ddefnyddio'n ddi-dâl yn ystod y dydd, a chlybiau a'r gymuned yn ei ddefnyddio gweddill yr amser.<br><br>Mae sawl corff wedi adnabod yr angen am gae newydd ac wedi ymrwymo cefnogeth ariannol i'r prosiect.<br><br>Clustnodwyd £885k drwy'r Rhaglen Ariannu Cyfalaf 2019-22 ar gyfer gwella cyflwr y caeau synthetig sydd yn y sir. Mae oddeutu £80k o’r swm wedi ei glustnodi ar gyfer gwella cyflwr y cae presennol. Bwriedir defnyddi’r swm yma tuag at y cynllun.<br><br>Byddai cymeradwyo'r bid yn caniatâu cwblhau prosiect gwerth £900k. | 118,000 |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | | |
| Cyf 2 | Cronfa Datblygu Gwirfoddol (Cist Gwynedd) | Mae CIST Gwynedd yn darparu grantiau refeniw a chyfalaf i grwpiau gwirfoddol ar draws y sir i ddatblygu a gwireddu prosiectau cymunedol. Yn 2021/22 cefnogwyd 7 prosiect gyda'r arian wedi ei gymeradwyo yn gyfan gwbl. | 50,000 |
| Cyf 3 | Ail Wynebu Maes Parcio Y Glyn, Llanberis | Ni ellir codi ffi am y maes parcio nes bod gorfodaeth parcio mewn lle, pan fydd y gorfodaeth mewn lle mi fydd angen gwella safon y maes parcio. Felly mae angen ail wynebu'r maes parcio.<br><br>Trafferth arall yw nad oes baeau parcio wedi eu marcio, gyda cerbydau yn parcio’n flêr a bod yr ardaloedd parcio ddim yn dal gymaint o geir ac y gall. Mi fydd angen sicrhau fod y baeau wedi eu marcio pan fydd y gorfodaeth parcio mewn lle. | 100,000 |

## ATODIAD 2c - BIDIAU CYFALAF

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyf 4 | Uwchraddio a diogelu Parc Padarn | Goleuadau Maes Parcio Gilfach Ddu<br>Diffyg goleuadau yn y safle yn bryder. Fe fyddai gosod goleuadau nid yn unig yn gwella diogelwch y safle ond hefyd yn cynnig yr opsiwn i gartrefi modur gwneud defnydd o'r safle yn y dyfodol gan gynhyrchu incwm ychwanegol i'r parc.<br><br>Pontydd Ger Y Llyn – Parc Padarn<br>Rhwng maes parcio Ger Y Llyn a'r maes chwarae mae dwy bont bren sy'n croesi Afon Goch. Mae'r ddwy bont erbyn hyn yn dirywio ac mi fydd angen eu newid. Os bydd y pontydd yn cael eu dymchwel yna fe fydd rhaid i'r cerddwyr gerdded wrth ochr y lôn fawr i fynd am neu o'r maes parcio Ger Y Llyn.<br><br>Diogelwch Dŵr<br>Dwy elfen i'r gwaith, y cyntaf yw diogelwch defnyddwyr. Ariannu dylunydd i greu arwydd gyda map o'r llyn yn nodi'r ardaloedd diogel i nofwyr, ardal i offer a phrynu offer achub newydd ar gyfer y llyn. Yr ail elfen yw diogelwch natur. Cais i osod lleoliad golchi yn ardal y Glyn (lleoliad golchi eisoes yn Gilfach Ddu).<br><br>Teithio Gwyrdd<br>Cais i ariannu gosod racs beics o amgylch y parc er mwyn annog pobl leol ac ymwelwyr i wneud defnydd o'r lon las pan yn teithio i Lanberis. A hefyd gosod pwyntiau gwefru ceir trydan yn Gilfach Ddu.<br><br>Mesurau Gwrth-fandaliaeth<br>Gosod byrddau picnic a meinciau gwrth fandaliaeth. | 50,000 |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | |
| Cyf 5 | Fflêr ar gyfer delio a nwyon safle tirlenwi Ffridd Rasus, Harlech | Contractiwyd rheolaeth nwy tirlenwi ar y safle hwn am y 5 mlynedd diwethaf, mae'r contractwyr wedi gadael y safle yn ddiweddar, gan ei wneud yn ofynnol i'r rheolaeth nwy gael ei reoli'n fewnol unwaith eto gan y Cyngor. Mae cyfaint a safon y nwy wedi lleihau i lefel ble mai dim ond fflêr llosgi calorig isel sydd a'r gallu rheoli'r nwy sy'n weddill yn ddigonol. Mae'n ofyniad trwydded statudol sy'n gyfrifoldeb ar Gyngor Gwynedd i reoli'r nwy cyhyd â'i gynhyrchiad. | 56,900 |

# ATODIAD 2c - BIDIAU CYFALAF

| | | | |
|---|---|---|---|
| **AMGYLCHEDD** | | | |
| Cyf 6 | Gwelliannau i groesfan ar Ffordd Llanberis, Caernarfon | Uwchraddio'r groesfan sydd wedi lleoli ar waelod y gyffordd sydd yn arwain i Stad Ysgubor Goch, Ffordd Llanberis. Mae'r safle croesi gyda phaent coch ar y briffordd yn bresennol ond nid yw safle croesi o'r math hwn yn rhoi gofyn statudol ar gerbydau i stopio.<br><br>Mae Ffordd Llanberis yn hynod o brysur ac er gwaethaf ymdrechion yr Adran ni lwyddwyd i benodi swyddog i groesi plant ysgol. Hefyd, mae'r Adran wedi ceisio denu arian ar gyfer uwchraddio'r groesfan ond nid oedd y cais yn llwyddiannus.<br><br>Derbyniwyd nifer o adroddiadau o sawl methiant agos yn y lleoliad, ble mae croeswyr wedi cael a chael i osgoi anafiadau difrifol. Ym mis Medi 2021 cafodd ddisgybl Ysgol Syr Hugh Owen ei daro gan gar yn agos i'r man croesi ac roedd rhaid i'r hofrennydd ambiwlans ymdrin â'r ddamwain oherwydd sefyllfa draffig yr ardal. | 50,000 |
| **YMGYNGHORIAETH** | | | |
| Cyf 7 | Hirael – cynllun atal llifogydd a gwelliannau cysylltiadau trafnidiaeth wyrdd | Disgwylir y bydd gwaith ar y cynllun atal llifogydd yn dechrau yn Ebrill 2022. Er mwyn sicrhau buddion ychwanegol fydd yn hwb i adfywio dinas Bangor, mae'r prosiect am weld gwelliannau i drafnidiaeth wyrdd (llwybr arfordirol a lôn beics genedlaethol) ar hyd llwybr yr amddiffynfa newydd fyddai'n hybu cysylltiadau rhwng canol y ddinas, Lôn Las Ogwen a'r pier.<br><br>Mae'r cynllun atal llifogydd Hirael wedi cyllido gyda grant 85% gan Lywodraeth Cymru. Bydd y swm ychwanegol gofynnir amdano hefyd yn denu grant 85% gan roi £500k ar gyfer buddion ychwanegol, sef:<br>- Codi lefel y promenâd arfordirol i alluogi cerddwyr i weld dros y wal lifogydd newydd<br>- Gwelliannau i'r promenâd gan gynnwys gosod meinciau ac arwyddion<br>- Gwelliannau i'r llwybr arfordir a'r llwybr beicio cenedlaethol. Fydd yn gwella cysylltiadau teithio o Lôn Las Ogwen (Porth Penrhyn) i ganol Bangor ac i'r pier<br>- Offer hamdden 'gym awyr-agored' ar faes chwarae Brenin Sior<br>- Edrych ar opsiynau i osod unedau manwerthu ger y maes chwarae<br>- Gwelliannau ategol (tu allan i'r prosiect atal llifogydd) drwy wella y llwybr beicio drwy Borth Penrhyn i gyfeiriad Hirael (adroddiad dichonoldeb newydd ei gwblhau). | 75,000 |
| **CYFANSWM BIDIAU CYFALAF** | | | **499,900** |